# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0767(CWS) a gyhoeddwyd gan Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, ar 14 Mehefin 2006

**At Lisa Francis:**

Yn fy sesiwn cwestiynau llafar ar 17 Mai bu ichi godi gyda mi unwaith eto y posibilrwydd i Lywodraeth y Cynulliad gynhyrchu adroddiad ar gyflwr yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys archwiliad ar adeiladau'r amgylchedd hanesyddol. Byddwch yn cofio y gwneuthum ddatgan yn ystod trafodaeth ar 18 Ionawr am gynllun Llywodraeth y Cynulliad i ystyried cynnig o'r fath a chredais y gallai fod yn ddefnyddiol rhoi gwybod i chi sut mae pethau ar hyn o bryd.

Trafodwyd y mater gan y grŵp amgylchedd hanesyddol ym mis Chwefror a bydd hefyd yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod y grŵp yn ddiweddarach y mis hwn. Credwn y byddai cwmpas y gwaith, yn y lle cyntaf o leiaf, yn cynnwys elfennau gweithgaredd yr amgylchedd hanesyddol yr oedd gan ddau banel cynghori newydd ar henebion Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Llywodraeth y Cynulliad reolaeth uniongyrchol drostynt. Yn ddibynnol ar beth all ddod i'r amlwg dros y misoedd nesaf, gallai'r archwiliad gynnwys materion gwarchodaeth a swyddogaethau statudol ar draws yr amgylchedd hanesyddol, gweithdrefnau cydsynio a rheoli, materion rheolaeth a grantiau, adroddiadau amodau, henebion sydd yng ngofal y wladwriaeth, cofnodion archeolegol a hanesyddol ac effaith dogfennau strategaeth sy'n bodoli.

Bydd yn golygu gwaith helaeth nad yw wedi'i gasglu ynghyd o'r blaen, a fydd yn dangos y cynnydd a wnaethpwyd i warchod yr amgylchedd hanesyddol ac i ddarparu meincnod o'r sefyllfa bresennol. Y gobaith yw y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn gynnar y flwyddyn nesaf dan y teitl cydweithredol Cymru Hanesyddol/Historic Wales, y gwneuthum gyhoeddi manylion arno ym mis Ebrill y llynedd.

Byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar y cynnydd yn y maes hwn.